

Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd yn y Broses Tiwtorial

Ffocws Blywddyn 1

- Hybu ymrwymiad i glybiau a chymdeithasau, gwirfoddoli, gwaith rhan-amser, cyfrifoldebau, ac ati.
- Codi ymwybyddiaeth o'r sgiliau a ddatblygir o'r cwrs academaidd ond hefyd drwy gyfrwng gweithgareddau all-gyrsiol, gan nodi eu perthnasedd i'w gilydd ac i'w dyfodol
- Cwblhau rhestr wirio sgiliau i adnabod y sgiliau sydd ganddynt yn barod a'r rhai sydd angen iddynt ddatblygu
- Llunio Tabl Cynllunio i drefnu sut byddant yn datblygu sgiliau helaethach a'r gweithgareddau dylid eu gwneud dros yr haf

Semester 1 Tiwtorial 1

I ymateb i'r canlynol a gyfeiriwyd atynt yn nogfen Nigel:

2. Disgwyliadau
3. Dyheadau a Chyfeiriad
4. Cyfeirio – Gyrfaoedd a Gwirfoddoli
6. Opsiynau – gall fod oblygiadau mawr ar ddewisiadau gyrfaol yn sgil newid neu adael cwrs, felly byddai'n werthfawr anog unrhyw fyfyrwr sydd yn ystyried hyn i drafod y mater ag Ymgynghorydd Gyrfaoedd cyn gwneud penderfyniad "Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn adnodd defnyddiol o flwyddyn 1 ymlaen, gallent eich helpu i weld pa sgiliau rydych yn eu datblygu wrth ddilyn eich cwrs academaidd a sut maent yn ddefnyddiol i chi mewn meysydd eraill o'ch bywyd hefyd. Gallent hefyd eich cynorthwyo i ddeall sut mae ymwneud â diddordebau, clybiau, cymdeithasau, gwirfoddoli, chwaraeon, a phob math o opsiynau all-gyrsiol yn eich helpu i ddatblygu sgiliau a fydd o werth i chi gyda'ch astudiaethau academaidd – maent oll yn drosglwyddadwy. Yn ystod y flywddyn hon byddwch yn cwblhau rhestr wirio sgiliau fel y gallwch weld yn glir pa sgiliau sydd ganddoch a pha rai sydd angen i chi eu datblygu a'u cryfhau. Cyfeiriwn at hwn eto yn ein tiwtorial yn Semester 2, ond yn y cyfamser cewch afael ar y rhestr wirio ar <http://www.aber.ac.uk/cy/careers/tutorial>."

Semester 2 Tiwtorial 4

"A ydych wedi bod yn cadw golwg ar ddatblygiad eich sgiliau? A ydych wedi cwblhau'r rhestr wirio sgiliau? Dewch i ni gael golwg ar eich datblygiad hyd yn hyn."

Rhai awgrymiadau i ddatblygu'r sgwrs ymhellach:

"Does dim llawer wedi ei nodi yma – dos i'w gweld yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd, mae ganddynt sesiynau galw heibio drwy'r wythnos a gwnant dy helpu i weld sut rwyd yn datblygu mor belled a pha sgiliau sydd gennyd yn barod."

"Nid wyt o'r farn dy fod wedi datblygu unrhyw sgiliau? – dos i'w gweld yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd, mae ganddynt sesiynau galw heibio drwy'r wythnos a gwnant dy helpu i weld sut rwyd yn datblygu mor belled a pha sgiliau sydd gennyd yn barod."

"Nid wyt yn deall sut i wneud hyn ac nid wyt yn gweld sut fod dy brofiadau wedi dy helpu i fagu sgilliau penodol? - dos i'w gweld yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd, mae ganddynt sesiynau galw heibio drwy'r wythnos a gwnant dy helpu i weld sut rwyd yn datblygu mor belled a pha sgiliau sydd gennyd yn barod."

"Mae'n amlwg fod gennyf lu o sgiliau yn barod, on does 'na elfennau sydd angen eu cryfhau neu eu datblygu mewn ffyrdd penodol? - dos i'w gweld yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd, mae ganddynt sesiynau galw heibio drwy'r wythnos a gwnant dy helpu i ganolbwyntio ar gryfahu rhai elfennau penodol neu i ddatblygu profiadau helaethach yn berthnasol i sgiliau penodol."

"Wyt ti'n gwybod mai . . . yw Ymgynghorydd Gyrfaoedd yr adran hon ac mae'n cynnig sesiwn galw heibio yma yn yr adran / Athrofa bob"

"Rwy'n gweld o'r dashboard nad oes gennyf unrhyw brofiad gwaith / mae dim ond ychydig o brofiad gwaith cefais cyn dod i'r Brifysgol. Dylet ganolbwyntio ar hyn, yn enwedig gan fod yr haf yn agosau ac mae hyn yn amser perffaith i fanteisio ar gyfleon gwaith a gynigir led-led y wlad. Dos i'w gweld yn y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn ystod eu sesiynau galw heibio a gallent dy gyfeirio at ystod eang o gyfleoedd o bob math. Defnyddia'r Tabl Cynllunio i dy gynorthwyo i roi trefn ar dy syniadau ac i gynllunio sut i ddefnyddio dy amser yn effeithiol a datblygu sgiliau pellach. Gallent dy helpu efo'r cynlluniau hyn hefyd, felly dos i'w gweld. Byddwn yn trafod dy Dabl Cynllunio 'ar rhestr wirio sgiliau ymhellach yn Mlwyddyn 2."

Ffocws Blwyddyn 2

- Beth wnaethant dros yr haf a sut maent wedi datblygu ymhellach o ganlyniad i hyn – yn nmhermau datblygiad sgiliau
- Ystyried profiad gwaith a sut i adeiladu ar y profiadau maent wedi eu cael hyd yn hyn
- Rhestr wirio sgiliau i weld eu datblygiad ers y llynedd
- Tabl Cynllunio i weld ble gall eu dewis cwrs, modiwlau dewisol, gweithgareddau all-gyrsiol a diddordebau eu harwain o ran eu cynlluniau i'r dyfodol a'u cynlluniau am brofiad gwaith dros yr haf

Semester 1 Tiwtorial 1

I ymateb i'r canlynol a gyfeiriwyd atynt yn nogfen Nigel:

3. Beth yw adborth a'i bwysigrwydd i'ch datblygiad academiadd a thu hwnt
4. Pam na ddylech ofni na phoeni am adborth
5. Sicrhau eich bod yn parhau i dalu sylw i'ch datblygiad personol
6. Ystyried eich ymrwymiad i weithgareddau'r Brifysgol, adran, cymuned
7. Pwysigrwydd profiad a lleoliadau gwaith
8. Cyfleoedd Erasmus, astudio dramor
9. Ble i fynd am gymorth pellach
10. Monitro eich perfformiad a phresenoldeb

"Gan edrych yn ôl ar eich datblygiad llynedd, sut ydych am wneud y mwyaf o'r flwyddyn hon i ddatblygu eich sgiliau, gwella yn academiadd, a chael profiadau gwaith gwerthfawr? Wrth edrych ar eich rhestr wirio a Thabl Cynllunio o llynedd, mae bylchau/gwendidau yn eich sgiliau a phrofiadau yn y meysydd canlynol . . . Awgrymaf eich bod yn trafod gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i sicrhau eich bod yn defnyddio eich amser yn y modd mwyaf buddiol eleni gan gryfhau'r meysydd hyn. Bydd hyn yn eich cynorthwyo i ganolbwyntio ar, a

chryfhau, eich gwaith academiadd hefyd, gan fo datblygu sgiliau a phrofiadau helaethach yn cyfrannu at eich datblygiad personol ym mhob agwedd o'ch bywyd. Gall y Gwasanaeth Gyrfaedd hefyd weithio gyda ar gynnwys eich Tabl Cynllunio fel eich bod yn dechrau hel syniadau am eich cynlluniau gyrfaol i'r dyfodol. Peidiwch a phoeni, nid yw hyn yn golygu eich bod yn penderfynu yn awr llwybr eich gyrfa am weddill eich hoes! Fodd bynnag, mae angen i chi ddechrau meddwl am rhai syniadau ac ystyried rhai opsiynau posibl. Rhydd y flwyddyn hon gyfle i chi ystyried pa elfennau o'ch cwrs sydd yn apelio atoch fwyaf, pam bod y rhain yn gweddu atoch yn well nac elfennau eraill, a pha sgiliau a ddefnyddir gennych wrth ddilyn y modiwlau hynny. Ar yr un pryd, mae angen i chi ddatblygu profiadau sy'n fwy cysylltiedig â byd gwaith neu fydd yn rhoi'r cyfle i chi brofi sefyllfaoedd mwy amrywiol, megis cyfleoedd Erasmus yn Ewrop, cyfnewidfa am semester gyda Phrifysgol dramor, y cynllun Blywddyn mewn Gwaith / blwyddyn ddiwydiannol, interniaethau dros yr haf, gwirfoddoli, llysgenad i'ch adran /y Brifysgol / eich cwrs, a defnyddio'n system eFentora i gysylltu â chyn-raddedigion all roi syniadau ac awgrymiadau i chi ar yr elfennau bu iddynt hwy ystyried wrth gynllunio eu gyrfaedd. Gwnewch yn siwr eich bod yn cwblhau'ch rhestr wirio sgiliau a'ch bod yn trafod eich Tabl Cynllunio gyda'r Gwasanaeth Gyrfaedd gan y byddwn yn trafod rhain ymhellach yn semester 2, **ond cofiwch bod dyddiadau cau rhai cyfleoedd yn codi yn fuan yn y flwyddyn – peidiwch a cholli'r cyfle!**"

"Wyt ti'n gwybod mai . . . yw Ymgynghorydd Gyrfaedd yr adran hon ac mae'n cynnig sesiwn galw heibio yma yn yr adran / Athrofa bob"

Semester 1 Tiwtorial 2

Yn nhermau adborth ar fodiwlau:

"Cofiwch bod gwybodaeth ar yr ystod o sgiliau cyflogadwyedd a ddatblygir wrth astudio pob un o'ch modiwlau yn cael eu nodi yn glir (MAF1, llawlyfr modiwl, disgrifiadau ar y wefan). Mae'r sgiliau hyn yn drosglwyddadwy i bob agwedd o'ch bywyd ac maen't yn rhan anatod o'ch datblygiad personol. Cofiwch nodi'r sgiliau hyn fel enghreifftiau ar eich rhestr wirio sgiliau."

Semester 2 Tiwtorial 3

Dylid annog unrhyw un o'ch myfyrwyr a all fod mewn perygl o adael eu cwrs i drafod eu sefyllfa gyda'r Gwasanaeth Gyrfaedd, yn ogystal â'ch cyd-weithwyr o fewn yr adran.

Semester 2 Tiwtorial 4

Pa gynlluniau sydd ganddoch i gael mwy o brofiad gwaith? Gwelaf o'ch dashboard nad oes gennych llawer o brofiad nac unrhyw syniadau pendant am eich cynlluniau i'r dyfodol. Bydd gadael hyn tan y flwyddyn nesaf yn rhy hwyr. Mynwch air â'r Gwasanaeth Gyrfaedd YN AWR i chi gael yr holl gymorth posibl i lunio syniadau a chynlluniau mewn da bryd. Os nad oes gennych unrhyw syniadau am eich gyrfa o gwbl yna'r Gwasanaeth Gyrfaedd yw'r lle delfrydol i fynd. Os oes gennych rhai syniadau gyrfaol ond rydych yn ansicr sut i'w gwireddu, yna siaradwch â'r Gwasanaeth Gyrfaedd, dyma'u pwrpas! Os oes

gennych gynlluniau gyrfaol pendant mewn golwg, yna da iawn chi, ond efallai gall y Gwasanaeth Gyrfaoedd gynnig awgrymiadau pellach ar sut i wireddu eich cynlluniau neu eich rhoi mewn cysylltiad â chyflogwyr, Prifysgolion neu gyfyrwyr perthnasol i'ch cynorthwyo ymhellach. Os oes gennych fwriad sefydlu busnes eich hun neu gweithio'n annibynnol, mynwch air â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd am gyfarwyddyd arbenigol, cymorth gyda'ch cynllun busnes ac am gysylltiadau gydag asiantaethau a sefydliadua eraill a allai gynnig cymorth ariannol neu gefnogaeth helaethach."

"Wyt ti'n gwybod mai . . . yw Ymgynghorydd Gyrfaoedd yr adran hon ac mae'n cynnig sesiwn galw heibio yma yn yr adran / Athrofa bob"

Ffocws Blwyddyn 3

- A ydynt wedi dechrau cynllunio eu gyrfa neu gam nesaf? – cwrs uwchraddedig, gwaith, interniaeth, gwirfoddoli, blwyddyn allan
- Rhestr wirio sgiliau i'w helpu wrth gwblhau ffurflenni cais
- Tabl Cynllunio i flaenoriaethu at bwy a ble i fynd am gymorth pellach
- Gwneud penderfyniadau a cheisiadau

Semester 1 Tiwtorial 1

"Yn eich blwyddyn olaf mae'n hanfodol eich bod yn cynllunio eich gyrfa, os nad ydych wedi cychwyn yn barod. Gwelaf o'r dashboard eich bod wedi cofnodi nad oes gennych syniadau gyrfaol penodol / bod ganndoch rhai syniadau gyrfaol ond dim byd cadarn, os felly dyma'r amser i drafod gyda'r Gwasanaeth Gyrfaoedd i chi ddechrau creu cynllun a llwybr i'ch hun. A wnaethoch unrhyw brofiad gwaith dros yr haf? Oedd hyn yn berthnasol i'ch cynlluniau/syniadau gyrfaol? A gawsoch fwy o ddealltwriaeth o'r sgiliau rydych yn mwynhau eu defnyddio neu o'r math o waith hoffech/ nad hoffech ei wneud? A ydych wedi diweddarau'ch rhestr wirio sgiliau, oes yna fylchau ynddo sydd angen i chi ganolbwyntio arnynt? A fu i chi ddilyn eich Tabl Cynllunio, neu oes yna gamau na fu i chi eu dilyn llynedd sydd angen eu gwneud eleni? Trefnwch gyfweiliad un-i-un gydag Ymgynghorydd Gyrfaoedd cyn gynted a fo'n bosibl i roi cychwyn ar bethau. Gall gymryd peth amser i gael cynllun yn ei le felly rhowch gychwyn arni cyn gynted a fo'n bosibl fel bo llai o bwysau arnoch fel bo'r blwyddyn yn myn rhagddi – **gweithredwch yn syth!**"

"Wyt ti'n gwybod mai . . . yw Ymgynghorydd Gyrfaoedd yr adran hon ac mae'n cynnig sesiwn galw heibio yma yn yr adran / Athrofa bob"

